Cais am Gludiant i Goleg Sir Gâr

Canllawiau

Ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2010 -11

Cadwch y nodiadau hyn mewn lle diogel i gyfeirio atynt yn y dyfodol

Pwy sy'n gymwys i gael cludiant?

Mae Coleg Sir Gâr a Chyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio mewn partneriaeth i helpu myfyrwyr llawn amser dan 19 oed ar 1 Medi 2010 i deithio i'r Coleg ac yn ôl. Gall fod myfyrwyr rhan amser yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol i'w galluogi i deithio i'r Coleg ac yn ôl – am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Adran Cefnogi Dysgwyr y Coleg ar 01554 748036 / 01554 748102.

Sut i wneud cais

Llenwch y ffurflen gais atodedig, gan sicrhau bod pob adran wedi ei llenwi'n gywir. **Os yw'r ffurflen yn anghyflawn, caiff ei dychwelyd atoch i chi ei llenwi'n gyfan gwbl; bydd hyn yn arwain at oedi o ran prosesu eich cais.** Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi llofnod a dyddiad ar y ffurflen yn cadarnhau eich bod wedi darllen y Canllawiau hyn a'r "Cod Ymddygiad ar gyfer defnyddio Cludiant Ysgol/Coleg" atodedig ac y byddwch yn cadw atynt. Dylai myfyriwr, rhiant neu warcheidwad lofnodi'r ffurflen hon. Dychwelwch y ffurflenni cais wedi'u llenwi i'r cyfeiriad isod:

Uned Cludiant, Coleg Sir Gâr, Campws y Graig, Heol Sandy, Pwll, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA15 4DN

Dosbarthu Tocynnau Teithio

Os caiff y cais ei gymeradwyo, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn anfon Tocyn Teithio atoch fel y gallwch deithio rhwng ardal eich cartref a'r Coleg am y flwyddyn academaidd, ynghyd â manylion am amserlenni a'r llwybrau i'w defnyddio. Fel rheol, bydd y Tocyn Teithio yn cael ei ddosbarthu cyn pen 10 niwrnod gwaith, er y gall gymryd rhagor o amser i brosesu ceisiadau ar adegau prysur. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu drwy lythyr.

Nodwch nad yw bob amser yn bosibl trefnu bod bysiau yn teithio'n agos i gartref pob myfyriwr, na threfnu bod myfyrwyr yn defnyddio'r ffordd neu'r arosfan fysiau agosaf i'w cartref. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y pellter rhwng y cartref a'r arosfan fysiau mor fyr â phosibl. ***Cyfrifoldeb y myfyriwr yw i wneud ei ffordd ei hun rhwng y cartref a'r arosfan fysiau benodedig.***

Os yw'r Tocyn Teithio yn cael ei golli neu ei ddifrodi, rhaid i chi ffonio Uned Cludiant Teithwyr y Cyngor Sir ar 01267 234567 ar unwaith i wneud trefniadau dros dro ac i archebu un newydd. Codir tâl o £5 am docynnau newydd.

Amodau Dosbarthu

Bydd angen i fyfyrwyr gyflwyno'r Tocyn Teithio i'r gyrrwr ar ddechrau pob siwrnai. Heb Docyn Teithio dilys ni chaniateir i'r myfyriwr deithio ar y bws, neu, os yw'n teithio ar fws gwasanaeth lleol, bydd gofyn iddo brynu tocyn. Rhaid dangos y Tocyn Teithio i swyddogion monitro awdurdodedig y Cyngor Sir os gofynnir am hynny.

Bydd pob myfyriwr sy'n gymwys i deithio am ddim yn cael Tocyn Teithio sy'n dwyn ei enw a'r siwrnai a bennwyd. Dim ond un Tocyn Teithio a gaiff y myfyriwr, a bydd yn caniatáu iddo deithio o'r cartref a gofrestrwyd gyda'r Coleg yn unig, a dim ond ar y siwrnai a ddangosir. Mae camddefnyddio Tocyn Teithio neu ei ddefnyddio'n dwyllodrus yn fater difrifol iawn a gallai olygu bod y myfyriwr yn destun gweithdrefn ddisgyblu'r Coleg yn ogystal â cholli ei hawl i gludiant.

Newid yn yr amgylchiadau

Os bydd unrhyw rai o'r manylion ar y ffurflen gais yn newid yn ystod y flwyddyn, rhaid i chi gysylltu ag Uned Cludiant Teithwyr y Cyngor Sir ar unwaith drwy ffonio 01267 234567 fel y gellir newid y manylion ac ailasesu cymhwysedd y myfyriwr os bydd angen. Os oes angen Tocyn Teithio newydd rhaid dychwelyd y Tocyn Teithio blaenorol i'r Cyngor Sir.

Os nad oes angen y Tocyn Teithio, am ba reswm bynnag y bo hynny, rhowch wybod i'r Uned Cludiant yn y Coleg ar 01554 748025 / 01554 748157 / 01554 748126 oherwydd mae'n bosibl y bydd angen y sedd ar gyfer myfyriwr arall. A fyddech cystal â dychwelyd eich Tocyn Teithio at Swyddfa'r Campws **a thelir £5 wrth ddychwelyd y tocyn**.

Trefniadau ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys

Mewn rhai ardaloedd, mae'n bosibl y bydd cludiant cyhoeddus ar gael fel bod modd i fyfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim dalu ffi i deithio ar fysiau gwasanaeth lleol. Os hoffech fwy o wybodaeth am y gwasanaethau hyn, cysylltwch ag Uned Cludiant Teithwyry Cyngor Sir fel y dangosir isod neu ffoniwch "Traveline" ar 0871 200 22 33.

Sut i gysylltu

Gellir cysylltu ag Uned Cludiant y Coleg fel a ganlyn:

- drwy'r post yn yr Uned Cludiant, Coleg Sir Gâr, Campws y Graig, Heol Sandy, Pwll, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 4DN;
- dros y ffôn ar 01554 748025 / 01554 748157 / 01554 748126;
- drwy anfon e-bost at transportunit@colegsirgar.ac.uk;

Gellir cysylltu ag Uned Cludiant Teithwyr y Cyngor Sir fel a ganlyn:

- drwy'r post – Adran Gwasanaethau Technegol, Parc Myrddin, Caerfyrddin, SA31 1HQ;
- dros y ffôn – 01267 234567 (o ddydd Llun i ddydd Gwener, oriau swyddfa'n unig);
- drwy ffacs – 01267 232697;
- drwy e-bost – TrafnidiaethGyhoeddus@sirgar.gov.uk
- drwy wefan yr Awdurdod: www.sirgar.gov.uk

Cais am Gludiant i Goleg Sir Gâr

Ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2010 -11

CANLLAWIAU darllenwch y rhain yn ofalus cyn cwblhau'r cais hwn.

- Cwblhewch **YR HOLL** fanylion – dychwelir y ffurflen os methir â gwneud hyn.
- Ysgrifennwch yn glir mewn **PRIF LYTHRENNAU** gan ddefnyddio inc glas neu ddu.
- Os ydych yn gwneud cais am Docyn Teithio newydd oherwydd **newid yn eich manylion**, megis enw/cyfeiriad, neu os ydych yn mynd i gampws arall neu'n teithio ar ddiwrnodau gwahanol, **RHAID** i chi ddychwelyd eich Tocyn Teithio presennol gyda'r cais hwn.
- Os ydych yn gwneud cais am Docyn Teithio newydd yn lle un a **gollwyd neu a ddygwyd**, **PEIDIWCH** â defnyddio'r ffurflen hon. Os collir neu ddifrodir eich trwydded bresennol, rhaid i chi ffonio **01267 234567** ar unwaith er mwyn gwneud trefniadau cludiant dros dro ac archebu un newydd. Codir tâl o £5 am drwyddedau newydd.

Adran 1. Manylion y myfyriwr (Darperir cludiant o **UN** cyfeiriad yn unig)

Cyfenw:	Dyddiad Geni:	Oedran:
Enw(au) cyntaf:	Gwryw/Benyw:	
Cyfeiriad cyrchu ar gyfer y cludiant: *Tŷ (rhif/enw) a Stryd*	Rhifau ffôn cyswllt: *Dydd*	
Pentref	*Gyda'r hwyr*	
Tref	Nodwch enw'r Ysgol neu Goleg yr aethoch iddo/i y llynedd:	
Cod Post		
Y sir lle rydych yn preswylio		

Adran 2. Manylion y cwrs yr ydych yn ei astudio

Teitl llawn y cwrs (nodwch y math o gwrs, e.e. Safon Uwch/Uwch Gyfrannol, NVQ, a.y.b. a'r pwnc/pynciau a astudir):		
Dyddiad dechrau'r cwrs:	Dyddiad gorffen y cwrs:	
Rhan Amser neu Lawn Amser *****:	Hyd y cwrs:	Blwyddyn astudio bresennol ar y cwrs:

* Mae cwrs llawn amser yn un sy'n golygu cyswllt yn y Coleg o **fwy na 15 sesiwn** bob wythnos.

Yn parhau dros y dudalen

Adran 3. Manylion ynghylch y cludiant sydd ei angen

Nodwch y campws a fynychir bob diwrnod o'r wythnos lle mae angen cludiant (ticiwch y blychau perthnasol):

	Llun:	***Mawrth:***	***Mercher:***	***Iau:***	***Gwener:***
Campws y Graig, Llanelli					
Campws Pibwrlwyd, Caerfyrddin					
Campws Ffynnon Job, Caerfyrddin					
Campws Rhydaman					
Campws y Gelli Aur, Llandeilo					

Lleoliad yr arosfan bws agosaf sydd fwyaf addas ar gyfer y cartref (os ydych yn gwybod):
Modd o gludiant: Fel arfer, caiff myfyrwyr Docyn Teithio naill ai er mwyn teithio ar fws contract neu fws gwasanaeth lleol. Os yw'r dewis o'r naill neu'r llall ar gael (mewn rhai ardaloedd yn unig) nodwch eich hoff fath o docyn teithio (bws contract neu fws gwasanaeth lleol):

Adran 4. Datganiad

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth ganlynol yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi darllen y Côd Teithio a'r Côd wrth Deithio ar Fysiau Ysgol, ac rwyf yn deall y gallai ymddygiad annerbyniol olygu y tynnir yn ôl yr hawl i gael cludiant.

Rwyf yn derbyn y gallai fod system Teledu Cylch Cyfyng ar waith ar y cerbyd byddaf yn teithio arno, ac y gellir cael golwg ar unrhyw beth sydd wedi'i gofnodi ar ffilm a'i ddefnyddio fel tystiolaeth o ymddygiad annerbyniol. Mae'r ffilm Teledu Cylch Cyfyng yn gyfrinachol, a dim ond pobl benodedig sydd wedi eu cymeradwyo gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol sydd â hawl i'w gwylio.

Llofnod: …… Dyddiad: ……..

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei dal a'i phrosesu'n awtomatig fel data ar system gyfrifiadurol. Bydd y Cyngor yn cymryd yr holl ragofalon rhesymol i sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gadw ac i gydymffurfio ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data.

Er mwyn helpu i atal twyll o ran gweinyddu cyllid cyhoeddus, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei chymharu â data personol arall a ddelir gan y Cyngor a'i defnyddio at ddibenion cymharu ag awdurdodau eraill.

Dychwelwch y ffurflen hon i'r Uned Cludiant, Coleg Sir Gâr, Campws y Graig, Heol Sandy, Pwll, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 4DN.

Coleg Sir Gar Gwiriwyd y ffurflen gan…… Dyddiad……

Adran Gwasanaethau Technegol / Technical Services Department,
Parc Myrddin / Parc Myrddin, Caerfyrddin/Carmarthen, SA31 1HQ
www.sirgar.gov.uk • www.carmarthenshire.gov.uk
Ffôn • Phone : 01267 234 567 *Ffacs • Fax :* 01267 232 697
Ebost • email : TrafnidiaethGyhoeddus@sirgar.gov.uk / PublicTransport@carmarthenshire.gov.uk

Côd Ymddygiad ar gyfer defnyddio Cludiant Ysgol/Coleg

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn bod angen diogelu a gofalu am ddisgyblion a myfyrwyr sy'n defnyddio cludiant rhwng eu cartref a'r ysgol. Mae diogelwch disgyblion a myfyrwyr yn gyfrifoldeb i'w rannu rhwng y disgyblion/myfyrwyr, rhieni/gwarcheidwaid, y Cyngor a'i ysgolion/colegau, a'r cwmnïau bysiau. Mae gan bob un o'r rhain ran bwysig iawn.

Mae'r Cyngor Sir wedi cyhoeddi "Côd Ymddygiad" ar gyfer pob grŵp sy'n ymwneud â'r mater. Mae'r adran ganlynol yn berthnasol i'r disgyblion/myfyrwyr sy'n defnyddio cludiant ysgol/coleg, ac i rieni/gwarcheidwaid. Gellir cael copi llawn o'r côd gan y Cyngor Sir.

Cyn y daith

Disgyblion/Myfyrwyr:

- A wnewch chi gyrraedd yr arhosfan mewn da bryd cyn bod y bws i fod i adael a phum munud o leiaf cyn yr amser cychwyn a drefnir. Peidiwch â rhuthro i'r arhosfan oherwydd mae'n bosib y byddwch yn esgeuluso diogelwch ffyrdd ac wedyn bydd damwain yn fwy tebygol o ddigwydd.
- Pan fyddwch wrth yr arhosfan, ciwiwch mewn modd trefnus, oddi ar y ffordd ac ar y palmant, os oes un i'w gael. Rhowch ystyriaeth i ddisgyblion/myfyrwyr eraill ar bob adeg.
- Gofalwch fod y bws wedi stopio'n llwyr cyn mynd arno. Peidiwch â gwthio neu ruthro at y drws ar unrhyw adeg.
- Dangoswch eich tocyn i'r gyrrwr neu talwch am eich taith. Os ydych wedi anghofio, wedi colli neu wedi torri eich tocyn a wnewch chi sicrhau eich bod yn cael un newydd gan y Cyngor Sir.

Rhieni/Gwarcheidwaid:

- A wnewch chi sicrhau bod eich plentyn yn gadael cartref gan ganiatáu digon o amser i gyrraedd yr arhosfan cyn bod y bws i fod i adael. Mae damwain yn llawer mwy tebygol o ddigwydd os yw plant yn rhuthro.
- A wnewch chi sicrhau bod eich plentyn yn gwybod am y llwybr mwyaf diogel ac yn ei ddefnyddio rhwng eich cartref a'r mannau lle y mae'r cerbyd yn ei gasglu ac yn ei ddychwelyd.
- A wnewch chi drefnu bod oedolyn cyfrifol yn mynd â phlant ifanc i'r mannau casglu ac yn eu codi o'r mannau dychwelyd. Cofiwch mai rhieni/gwarcheidwaid sy'n gyfrifol am ddiogelwch eu plant o'r mannau dychwelyd a chasglu.
- Sicrhewch bod eich plentyn yn aros wrth yr arhosfan am gyfnod rhesymol os nad yw'r bws yn cyrraedd ar amser. Gallai fod amrywiol resymau dros yr oedi. Os nad yw'r bws yn cyrraedd a wnewch chi fynd â'ch plentyn gartref a rhoi gwybod i'r ysgol/coleg cyn gynted â phosibl fel bod y staff yno yn gwybod pam nad yw'r plentyn wedi cyrraedd.

Yn ystod y Daith

Disgyblion/Myfyrwyr:

- Chwiliwch am sedd cyn gynted â phosib, peidiwch â gwthio teithwyr eraill ac os bydd yn bosib arhoswch yn yr un sedd ar bob taith. Peidiwch â rhoi eich bag neu eiddo eraill yn yr eil, gan fydd hyn yn atal pobl rhag mynd oddi ar y bws yn gyflym mewn argyfwng.
- Pan fyddwch ar eich eistedd dylech roi'r gwregys diogelwch amdanoch, *os bydd rhai i'w cael*.
- Peidiwch â gwneud dim i dynnu sylw'r gyrrwr pan fydd e/hi yn gyrru, ac eithrio mewn argyfwng. Gall ymyriad megis gormod o sŵn neu gamymddwyn achosi damwain.
- Peidiwch ag ysmygu, bwyta nac yfed tra byddwch ar y bws. Peidiwch â gadael sbwriel ar y cerbyd.
- Peidiwch â thaflu unrhyw beth yn y bws neu allan o'r bws ar unrhyw adeg. Bydd y fath ymddygiad yn rhoi pawb mewn perygl mawr.
- Peidiwch â thorri, fandaleiddio nac ymyrryd ag unrhyw ran o'r cerbyd ar unrhyw adeg. **Peidiwch byth â defnyddio drysau neu allanfeydd y cerbyd ac eithrio mewn argyfwng.** Os bydd disgyblion/myfyrwyr yn euog o ddifrodi'r cerbyd, nhw fydd yn gyfrifol am dalu costau'r holl atgyweiriadau.
- Bydd unrhyw ddisgybl/myfyriwr yr honnir ei fod wedi difrodi'r cerbyd neu wedi ymosod ar deithiwr arall yn destun ymholiad disgyblu. Yn ystod yr ymholiad ni fydd y disgybl yn cael defnyddio'r cludiant ac os bydd yr achos yn cael ei brofi gallai'r disgybl gael ei atal rhag defnyddio cludiant ysgol/coleg.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r hebryngydd (os oes un) ar bob adeg yn ystod eich taith ac yn enwedig os bydd damwain neu os bydd y cerbyd yn methu â mynd.
- Os bydd damwain neu os bydd y cerbyd yn methu â mynd, dylech aros yn y cerbyd nes eich bod yn derbyn gorchymyn i adael.

Os na fydd yn ddiogel i aros yn y cerbyd oherwydd mwg neu dân neu os bydd y gyrrwr neu'r hebryngydd wedi cael ei anafu, gadewch y cerbyd drwy'r allanfa fwyaf diogel mewn modd trefnus. Pan fyddwch wedi dod o'r cerbyd ymgasglwch yn y man mwyaf diogel i ffwrdd o'r briffordd. Os ydych ar draffordd symudwch o'r ffordd, gorau oll ar ochr bryncyn ond cofiwch gadw'n ddiogel ar bob adeg. Galwch am gymorth gan yrrwr neu anfonwch y disgybl hynaf i'r adeilad agosaf.

Rhieni/Gwarcheidwaid:

- A wnewch chi annog eich plant i ymddwyn yn gall ar gerbydau cludiant ysgol/coleg ac o'u cwmpas. Dywedwch wrthynt fod yn rhaid iddynt ddilyn Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer disgyblion a myfyrwyr ac os nad ydynt, fe allent gael eu hatal. Yn ogystal cofiwch mai rhieni/gwarcheidwaid a fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir gan y plentyn.

Ar ddiwedd y Daith

Disgyblion/Myfyrwyr:

- Arhoswch nes bod y cerbyd wedi stopio cyn agor eich gwregys diogelwch a chodi o'ch sedd.
- Sicrhewch fod gennych eich eiddo i gyd wrth i chi adael y bws.
- Peidiwch â rhuthro na gwthio teithwyr eraill.
- Pan fyddwch yn gadael y cerbyd, sicrhewch nad yw eich cot neu eich bag wedi cydio mewn rhywbeth. Symudwch yn bell o'r bws.
- Os ydych wedi anghofio rhywbeth, byddwch yn ofalus wrth ddychwelyd i'r bws, peidiwch ag ymdrechu i fynd ar y cerbyd nes bod y gyrrwr wedi eich gweld ac wedi stopio'r cerbyd. Os bydd y cerbyd wedi dechrau symud i ffwrdd, gwnewch drefniadau eraill i gasglu eich eiddo drwy ffonio'r cwmni bysiau.
- Os bydd angen croesi'r ffordd ar ôl i chi adael y cerbyd, rhowch ddigon o amser i'r bws symud i ffwrdd cyn dechrau croesi'r ffordd fel eich bod yn gallu gweld yn glir a bod ceir yn gallu eich gweld chi. Cofiwch ddefnyddio Rheolau'r Groes Werdd.

Rhieni/Gwarcheidwaid:

- A wnewch chi sicrhau bod rhywun yn aros i gasglu plant ifanc cyn bod y bws yn cyrraedd.
- Mewn mannau penodedig yn unig y bydd teithwyr yn cael eu dychwelyd oni bai bod newid wedi cael ei gytuno a'i gadarnhau ar bapur gyda'r Cyngor Sir a'r gyrrwr.
- A wnewch chi ddysgu plant sut i ddefnyddio Rheolau'r Groes Werdd ac i ddefnyddio croesfan i deithwyr neu groesfan ysgol arbennig a reolir os bydd un ar gael.

Ymddygiad Cyffredinol

- Mae'n rhaid i deithwyr fod yn ymwybodol o deithwyr eraill ac ymddwyn yn gyfrifol ar bob adeg, ac ni ddylent roi eu bywydau eu hunain neu deithwyr eraill mewn perygl. **Ni dderbynnir ymddygiad drwg ar gludiant ysgol/coleg. Bydd y Cyngor, ysgolion/colegau, a'r Contractwyr yn cydweithio i nodi troseddwyr a gweithredu'n briodol. Yn y pendraw, bydd troseddwyr yn colli eu hawl i deithio, a fydd yn golygu bod rhagor o gostau i'w talu gan y disgyblion/myfyrwyr neu rieni/gwarcheidwaid.**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin bellach yn defnyddio Teledu Cylch Cyfyng ar fysiau ysgol/coleg.

Defnyddir camerâu ar amrywiaeth o lwybrau drwy'r Sir. Ni chedwir yr hyn sy'n cael ei recordio oni bai y derbynnir gwybodaeth am ddigwyddiad; yn yr achos hwnnw gellir defnyddio'r hyn sydd wedi cael ei recordio fel tystiolaeth. **A wnewch chi sicrhau bod teithwyr yn gwybod am y fenter hon ac yn deall y bydd unrhyw gamymddygiad yn cael ei drin mewn modd difrifol iawn.**

Delio â newididau ar fyr-rybudd i drefniadau teithio

Fe all newidiadau yn y tywydd neu amgylchiadau annisgwyl eraill achosi i ysgolion gau ar fyr-rybudd. Hyd yn oed pan fo modd i'r ysgolion aros ar agor, fe fydd tarfu ar y trefniadau cludiant o bryd i'w gilydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Mae'n rhaid i gwmnïau cerbydau cludiant ysgol a'u gyrwyr ffurfio barn am ddiogelwch y ffordd a ddefnyddir a ph'un a oes modd gwneud y daith, neu ran o'r daith honno yn unig, mewn rhai achosion. Hwyrach na fydd rhai bysiau'n medru teithio o gwbl, neu weithiau, bydd bws yn dechrau casglu disgyblion yn y bore ond bydd yn rhaid rhoi'r gorau i'r daith a mynd â'r plant yn ôl i'r mannau codi. Hyd yn oed pan fo modd i'r bysiau gludo'r plant i'r ysgol, mae'n bosib y bydd yn rhaid i'r bws adael yr ysgol yn gynnar oherwydd bod y tywydd yn gwaethygu. **Mae'n hanfodol bwysig felly bod rhieni'n sicrhau bod gan eu plant rywle i fynd yn ystod y dydd os na fydd y rhieni gartref a bod eu plant yn deall beth ddylent wneud yn y fath sefyllfa.**

Mae'n hanfodol bwysig hefyd fod rhieni'n sicrhau eu bod yn rhoi rhif ffôn cyswllt i'r ysgol, y gellir ei ddefnyddio mewn argyfwng, a bod yr ysgol yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r rhif hwn fel bod modd iddynt gysylltu â'r rhieni pe byddai problem yn codi.

Dylai rhieni sicrhau hefyd bod eu plant yn gwisgo'n briodol yn y tywydd oer, rhag ofn fod y bws yn hwyr neu fod y daith i'r ysgol neu yn ôl adref yn arafach na'r arfer.

Os na fydd cludiant ysgol ar gael yn y bore oherwydd y tywydd gwael ac os yw rhieni'n dewis mynd â'r plant i'r ysgol eu hunain, yna bydd yn ofynnol i'r rheini wneud eu trefniadau eu hunain i gasglu'r plant ar ddiwedd y diwrnod ysgol.